# 18. Dau Frenin yn Jwdea

**CYMERIADAU**

- HEROD
- CYNGHORWR a CYNG. 2
- GŴR DOETH 1, 2 a 3
- ANGEL
- CAPTEN
- JOSEFF
- MAIR
- MILWYR
- CAETHFERCHED

Mae prif olygfa'r ddrama yn digwydd ym mhalas y Brenin HEROD. Mae golygfeydd bychain eraill yn digwydd mewn mannau amhenodol. Dylid rhannu'r llwyfan yn ddwy ran. Gall y palas gael ei leoli yn un darn a pharhau yno trwy gydol y ddrama; bydd y rhan arall ar gyfer y golygfeydd eraill sy'n cynnal y brif olygfa. Byddai'n ddefnyddiol iawn defnyddio goleuadau 'sbot' ar gyfer pob golygfa.

Dylid cael soffa gysurus ym mhalas HEROD ac un neu ddau o glustogau a llenni moethus.

**GOLYGFA 1**

Mae'r olygfa'n digwydd ym mhalas HEROD. Mae HEROD yn gorweddian ar y soffa.

Byddai'n dda o beth cael rhai MILWYR a CHAETHFERCHED yn bresennol. Daw un o GYNGHORWYR HEROD i mewn gan ymgrymu.

CYNGHORWR: Mae gen i neges. Neges i'r brenin oddi wrth ddoethion o'r dwyrain.

HEROD: Siaradwch!

CYNGHORWR: Mae tri llywodraethwr o'r dwyrain wedi dod i mewn i'ch talaith. Fe welson nhw seren newydd yn codi yn y dwyrain ac maen nhw wedi teithio oddi yno i'r ardal hon. Mae ganddyn nhw broffwydoliaeth sydd o fudd i'r brenin.

HEROD: [*Yn dangos diddordeb*] Proffwydoliaeth fydd o fudd i mi? Wel, fe fydd hynny yn newid bach o'r holl broffwydoliaethau Iddewig am wn i. Ble mae'r doethion rŵan?

CYNGHORWR: Maen nhw ar gyrion y dalaith, o frenin. Fe fyddan nhw yma yn y palas cyn bo hir. Maen nhw am ymddangos o flaen y brenin.

[*Mae'r CYNGHORWR yn mynd allan gan foesymgrymu*]

HEROD: [*Wrtho'i hun*] Mae'n ymddangos y bydd y broffwydoliaeth yma o ddiddordeb mawr i mi. O fudd i'r brenin ia? Efallai y bydd y seren yn darogan fy nyfodol. [*Saib*] Yna, rydw i'n barod i wrando ar yr hyn sydd ganddyn nhw i'w ddeud.

**GOLYGFA 2**

Tra bo'r STORÏWR yn siarad, bydd y cymeriadau ar y llwyfan yn symud yn dawel ac yn araf i'w safleoedd gan geisio cyfleu cwrs amser.

STORÏWR: O'r diwedd, cyrhaeddodd y doethion balas Herod ac fe gawson nhw eu galw o flaen y brenin.

[*Daw'r tri i mewn – o gefn y neuadd, heibio i'r gynulleidfa os oes modd*]

GŴR DOETH 1: [*Yn ymgrymu*] Rwyt ti a'th wlad wedi eich bendithio, o frenin. Fe welson ni seren y brenin newydd a daethon ni i weld y man lle cafodd ei eni er mwyn i ni fedru talu gwrogaeth a rhoi anrhegion iddo.

GŴR DOETH 2: Gofynnwn i ti ym mhle mae'r brenin pwerus yma ac i ti ein harwain ato.

HEROD: Fi ydy brenin y dalaith hon, ni wn am unrhyw frenin arall. Dywedwch fwy wrtha i am y 'brenin grymus'.

GŴR DOETH 3: Fe gafodd ei eni rhywle ym Methlehem. Mae ei ddyfodiad o arwyddocâd mawr, nid yn unig i'r wlad hon ond i'r byd cyfan.

GŴR DOETH 2: Bydd iddo fwy o fawredd na'r un dyn sydd wedi rheoli ar y ddaear yma; bydd iddo fwy o bŵer na'r brenin mwyaf pwerus.

GŴR DOETH 1: A bydd ei deyrnasiad yn goroesi unrhyw deyrnasiad daearol. Bydd ei deyrnasiad yn dragwyddol.

HEROD: [*Yn feddylgar a gwawdiol*]

Felly wir! Rydan ni'n freintiedig iawn.

GŴR DOETH 1: Dywed y broffwydoliaeth fod y plentyn wedi'i eni i fod yn frenin yr Iddewon.

HEROD: [*Yn brawychu*]

Brenin yr Iddewon.

[*Bron wrtho'i hun*] Mae'r Iddewon yma yn bobl gythryblus fel y mae hi heb gynhyrchu brenin sy'n mynd i fod yn fwy o boen i ni.

[*Wrth y DOETHION*]

Fe wnaethoch yn iawn wrth ddod ata i. Mae gen i ddiddordeb yn y brenin newydd yma, fe faswn innau hefyd yn hoffi gwybod lle cafodd ei eni.

GŴR DOETH 2: Yna, fe wnawn ni ymgynghori â'ch ysgolheigion a phan gawn ni fwy o wybodaeth fe ddown ni'n ôl yma i ddeud wrthoch chi lle cafodd y plentyn ei eni ac fe allwch chithau fel ninnau fynd i'w anrhydeddu a chyfri hynny yn fraint fawr.

[*Y tri'n ymgrymu*]

HEROD: Fe arhosa i nes y dowch yn ôl a bydd o ddiddordeb ac yn fraint i mi gael clywed yr hyn fydd gennych i'w ddeud.

**GOLYGFA 3**

Tra bydd y STORÏWR yn siarad mae HEROD a'i lys yn 'rhewi'; symuda'r DOETHION i ochr arall y llwyfan. Daw MAIR a JOSEFF i mewn o'r ochr yna hefyd, mae'r DOETHION yn penlinio ac yn cyflwyno eu hanrhegion. Wedi i'r STORÏWR orffen siarad, mae MAIR a JOSEFF yn gadael y llwyfan ac mae'r DOETHION yn gorwedd i lawr i gysgu.

STORÏWR: Mae ymwelwyr Herod yn cael eu harwain gan y seren tua Bethlehem. Maen nhw'n dod o hyd i'r un bychan mewn adeilad llwm, ond er llymder yr adeilad, maen nhw'n argyhoeddedig fod ei frenhiniaeth yn un ddilys.

Ar ôl rhoi eu hanrhegion iddo, gan orfoleddu, maen nhw'n paratoi i orffwys cyn mynd yn ôl at Herod.

[*Canolbwyntir yn awr ar olygfa HEROD. Mae o'n symud o gwmpas yn ddiamynedd, mae ei GYNGHORWYR yn un clwstwr o'i gwmpas*]

HEROD: Rydw i eisiau gwybod lle y cafodd y plentyn yma ei eni. Rydw i eisiau dod o hyd iddo a chael mwy o wybodaeth am y chwedl ddwyreiniol hon.

[*Gan droi'n gas at ei GYNGHORWYR*]

Siawns na fedrwch chi'r ffyliaid ddod o hyd i'r man lle cafodd y plentyn ei eni!

CYNGHORWR 2: [*Yn ymgrymu*] Eich Mawrhydi, yr unig bobl sydd â siawns o wybod hynny ydy'r doethion o'r dwyrain. Roedden ni wedi gobeithio y bydden nhw'n ôl yma erbyn hyn.

HEROD: A tydyn nhw ddim wedi dod yn ôl ata i. Rydw i'n disgwyl am y newyddion fydd ganddyn nhw a does 'na run ohonoch chi'r ffyliaid yn gwybod lle maen nhw!

[*Yn gynddeiriog*]

Gwell i chi wneud eich gorau i ddod o hyd iddyn nhw.

[*Mae'r olygfa yma rŵan yn 'rhewi' a chanolbwyntir ar y DOETHION sy'n cysgu. Daw'r ANGEL i mewn*]

ANGEL: Peidiwch ag ofni. Mae gen i neges oddi wrth yr Arglwydd Dduw. Mae Herod yn bwriadu lladd y plentyn rydych chi newydd ei weld. Peidiwch â mynd yn ôl ato a pheidiwch â dweud wrtho lle mae'r plentyn. Ewch yn ôl i'ch gwlad ar eich union. Cawsoch fraint fawr o weld y brenin yn nyddiau ei fabandod.

[*ANGEL yn mynd allan. DOETHION yn deffro gan edrych ar ei gilydd yn syn*]

GŴR DOETH 1: Rydw i wedi cael breuddwyd.

GŴR DOETH 2: Gweledigaeth.

GŴR DOETH 3: Arwydd oddi wrth Dduw yn ein rhybuddio rhag mynd yn ôl at Herod.

GŴR DOETH 1: Mae'n debyg fod Herod yn flin fod y plentyn hwn wedi'i eni.

GŴR DOETH 3: Ac mae ganddo reswm i ofni. Bydd y plentyn yna'n fwy o frenin nag y bu Herod erioed. Mae Herod yn poeni'n fawr am ei safle ei hun.

GŴR DOETH 2: Wnawn ni ddim dychwelyd i'r palas. Wnawn ni ddim ei helpu i niweidio'r plentyn.

[*Mae'r DOETHION yn mynd allan. Canolbwyntir yn awr ar balas HEROD. Mae o'n troi at un o'i GYNGHORWYR*]

HEROD: Felly, maen nhw wedi gadael y wlad ydyn nhw? A rŵan maen nhw wedi gweld brenin yr Iddewon! A rŵan rwy'n clywed fod yr Iddewon yn hawlio fod eu Meseia wedi'i eni.

CYNGHORWR: Eich Mawrhydi. Mae'r Iddewon yn gweld yr holl beth fel cyflawniad o'u proffwydoliaethau. Maen nhw'n galw'r brenin yma yn Feseia, mab Duw. Maen nhw'n siarad amdano yn y modd yma er nad ydyn nhw wedi'i weld. Maen nhw'n deud hefyd y bydd yn eu harwain fel cenedl i annibyniaeth.

HEROD: Mab Duw! Rhyfelwr o frenin!

Ni chaiff yr Iddewon y math yma o frenin.

[*Mae'n tawelu*]

Chawn nhw ddim y math yma o frenin oherwydd fe ladda i o.

CYNGHORWR: Ond tydyn ni ddim yn gwybod lle mae'r plentyn, o frenin. Does gynnon ni 'run modd o wybod lle mae o.

HEROD: Aeth rhan dda o flwyddyn heibio ers i'r doethion ddeud wrthyn ni am y digwyddiad. Ni fydd y plentyn yn fwy na dwyflwydd oed!

[*Pawb sy'n bresennol yn edrych yn syn. Daw CYNGHORWR 2 ymlaen*]

CYNGHORWR 2: O frenin. Eich Mawrhydi. Ni fyddai'r Iddewon yn caniatáu hyn. Fe fyddan nhw'n gwrthryfela. Mae'n siŵr fod yna filoedd o fechgyn bach ...

HEROD: Yna rhaid i filoedd farw! Ydych chi'n meiddio amau fy ngorchmynion? Ewch o'm golwg!

[*Mae CYNGHORWR 2 yn mynd allan a daw CYNGHORWR 1 ymlaen yn ofalus*]

CYNGHORWR 1: Syr, fe wnawn un ymgais arall i ddod o hyd i'r plentyn. Holwn yr Iddewon.

HEROD: Does dim pwrpas holi! Rydw i wedi penderfynu. Ewch i nôl Capten y Gwarchodlu.

CYNGHORWR 1: Ond syr, rydw i ...

HEROD: Gwnewch fel yr ydw i'n ei orchymyn!

[*CYNGHORWR yn ymgrymu ac yna'n mynd allan*]

HEROD: [*Yn troi ar bawb sy'n bresennol*]

Sefyll yma'n llygadrythu fel rhai wedi mynd o'u co! Rydych chi'n llygad-dystion rŵan fod Herod am brofi na fydd yna 'run brenin arall yn fwy grymus nag o yn Jwdea.

**GOLYGFA 4**

Ar ôl seibiant byr daw CYNGHORWR i mewn gyda CHAPTEN Y GWARCHODLU. Mae hwnnw'n ymgrymu ac yn aros am orchymyn.

HEROD: Gwrandewch yn ofalus tra bydda i'n rhoi'r gorchmynion. Mae gan yr Iddewon ryw syniad rhyfedd fod Meseia wedi'i eni yn Jwdea. Maen nhw'n deud y byddan nhw'n cael eu harwain gan y brenin yma i fuddugoliaeth. Allwn ni ddim goddef y fath helbul. Dyma fy ngorchmynion.

[*Saib*]

Lladdwch bob bachgen dwyflwydd neu iau sy'n byw yn nhalaith Jwdea.

[*Mae'r CAPTEN yn edrych yn syn. Mae'r CYNGHORWR yn ymgrymu*]

CYNGHORWR: Byddwch fyw'n dragywydd, o frenin. Ni ddylai'r plentyn yma achosi unrhyw bryder i chi. Chwedl arall wedi'i lledaenu gan yr Iddewon ydy hon. Chlywch chi ddim rhagor amdani.

HEROD: [*Yn oeraidd*] Does dim angen cyngor arna i ar y mater hwn. Bydd y plentyn yn marw. Tydw i ddim yn ofni'r plentyn ond fe ddangosa i i'r Iddewon yna pwy ydy'r brenin. [*Yn wyllt*] Fi ydy eu brenin nhw! Rhaid iddyn nhw ddysgu hynny!

CAPTEN: Syr. Allwn ni ddim ufuddhau i'ch gorchmynion tra bod yr Iddewon o gwmpas. Rydych yn eu hadnabod yn well na 'run ohonom. Fe fydd yna lofruddio a gwrthryfela. A byddwch ...

HEROD: [*Mewn cynddaredd*]

Fe gewch chi'ch lladd os na ufuddhewch i'm gorchmynion. Mae hyn i'w wneud ar unwaith.

[*Mae'r olygfa yma'n rhewi a daw MAIR a JOSEFF ar y llwyfan o'r ochr arall. Mae MAIR yn gafael yn y plentyn – maen nhw'n penlinio, mewn tablo. Daw ANGEL i mewn*]

ANGEL: Joseff. Paid â phoeni, gwranda'n ofalus ar y gorchmynion a ddaw i ti gan Dduw. Rhaid i ti baratoi, a ffoi i'r Aifft gyda'r plentyn. Mae Herod yn benderfynol o ladd dy blentyn, dwyt ti ddim yn ddiogel yn y wlad yma. Aros yn yr Aifft nes bydd yr Arglwydd Dduw yn dy alw'n ôl i Jwdea.

[*Mae'r ANGEL yn mynd allan*]

JOSEFF: Rydan ni wedi ein gorchymyn gan Dduw, Mair. Fe ddeudodd wrtha i mewn breuddwyd fod Herod am niweidio ein plentyn ni.

MAIR: Yna, mae'n rhaid i ni guddio.

JOSEFF: Rydan ni am fynd i'r Aifft nes y bydd llid Herod wedi lleihau.

MAIR: Be wnaiff o Joseff? Fydd rhai eraill yn marw o'n herwydd ni a'n plentyn?

JOSEFF: Rydan ni wedi ein gorchymyn gan Dduw. Rhaid i ni fynd i'r Aifft. Fe wna Herod yr hyn a ddymuna beth bynnag.

[*Maen nhw'n mynd allan*]

STORÏWR: "Llef a glubuwyd yn Rama, galar, ac wylofain, ac ochain mawr, Rachel yn wylo am ei phlant; ac ni fynnai ei chysuro, am nad oeddynt."

**GOLYGFA 5**

Tra bydd y STORÏWR yn siarad bydd y cymeriadau ym mhalas HEROD yn newid lle. Mae'r CAPTEN yn penlinio o flaen HEROD.

HEROD: [*Mwy o ddatganiad na chwestiwn*]

Rydych wedi ufuddhau i'm gorchmynion.

CAPTEN: Mae'r milwyr wedi gneud yr hyn a orchmynnwyd. Cafodd y rhai a wrthododd wneud hynny eu dienyddio.

HEROD: Ac mae pob bachgen bach yn farw?

CAPTEN: [*Yn chwerw*] Mae pob bachgen bach yn farw!

[*Yn dawel*] Mor farw â'r dynion a orfodwyd i wneud y fath weithred.

HEROD: [*Yn cerdded o gwmpas yn falch*]

Yna, does gan yr Iddewon 'run brenin?

CAPTEN: Does gan yr Iddewon ddim brenin!

HEROD: Felly, dim ond un brenin sydd yn Jwdea unwaith eto.

[*Mae pawb yn ymgrymu*]

Tydi'r plentyn yna ddim yn fygythiad mwyach. Chwedl oedd yr holl beth o'r dechrau. Mae'r byd rŵan wedi'i waredu o Iddew trafferthus, cawn fynd ymlaen fel ag yr oedden ni.

[*Saib*]

Chlywn ni ddim rhagor gan yr Iddewon am eu 'brenin'.

STORÏWR: Tyfodd y bachgen yn gorfforol a meddyliol. Sylwai ei rieni arno ac fe wydden nhw y byddai rhyw ddiwrnod yn profi i'r byd ei fod yn un arbennig iawn. Fel y tyfai'r bachgen daliai'r Iddewon i ddisgwyl am eu Meseia. Mae rhai yn aros o hyd. Ond fe ddaeth yn y baban Iesu. Pan fu farw Herod, fe ddaethon nhw'n ôl i Nasareth ac oddi yno, roedd Iesu i ddechrau ar waith a achubodd, nid yn unig yr Iddewon, ond yr holl fyd.

**DIWEDD**